HSC(6)-15-23 PTN 7

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

3 Chwefror 2023

Annwyl Russell,

Ysgrifennais atoch ym mis Tachwedd 2022 gan amlinellu ein cynlluniau i sicrhau pwyslais o'r newydd ar ymdrechion i gael gwared ar hepatitis B a C yng Nghymru. Wrth wneud hynny, roeddwn wedi ymrwymo i roi gwybod ichi am gyhoeddi nifer o ddogfennau allweddol.

Cyhoeddwyd y datganiad ansawdd ar gyfer clefydau'r afu ar 30 Tachwedd 2022, gan nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau'r afu i blant ac oedolion yng Nghymru ar gyfer y degawd nesaf. Bydd Gweithrediaeth y GIG yn cefnogi'r datganiad hwn, a chaiff ei roi ar waith drwy gyfres o gynlluniau galluogi byrddau iechyd a thrwy gydweithio â rhwydweithiau a rhaglenni newydd: Y datganiad ansawdd ar gyfer clefydau'r afu [HTML] | LLYW.CYMRU

Anfonwyd Cylchlythyr Iechyd Cymru o'r enw *'Cael gwared ar hepatitis (B a C) fel bygythiad i iechyd y cyhoedd yng Nghymru – camau gweithredu ar gyfer 2022 i 2023 a 2023 i 2024'* at fyrddau iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau cynllunio ardal camddefnyddio sylweddau ar 12 Ionawr 2023. Mae'n cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu heriol ar gyfer partneriaid cyflawni. Bydd Grŵp Trosolwg Rhaglen Dileu Hepatitis B a C, a sefydlwyd yn ddiweddar ac a arweinir gan Lywodraeth Cymru, yn goruchwylio cynnydd: Cael gwared ar hepatitis B a C fel bygythiad i iechyd y cyhoedd: camau gweithredu ar gyfer 2022 i 2023 a 2023 i 2024 (WHC/2023/001) | LLYW.CYMRU

Mae datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd i gyd-fynd â'r Cylchlythyr wedi ei atodi hefyd.

Byddaf yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor o bryd i'w gilydd am ein hymdrechion i gael gwared ar hepatitis B a C fel bygythiad i iechyd y cyhoedd.

Yn gywir

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cael gwared ar hepatitis B a C fel bygythiad i iechyd y cyhoedd** |
| **DYDDIAD** | **03 Chwefror 2023** |
| **GAN** | **Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Mae'n bleser gennyf rannu'r newyddion bod Cylchlythyr Iechyd Cymru *Cael gwared ar hepatitis (B a C) fel bygythiad i iechyd y cyhoedd yng Nghymru – Camau gweithredu ar gyfer 2022-23 a 2023-24* bellach wedi'i gyhoeddi. Bydd hyn yn helpu Cymru i gyflawni ein hymrwymiad i gyrraedd targedau Sefydliad Iechyd y Byd i gael gwared ar hepatitis B a C fel bygythiad i iechyd y cyhoedd erbyn 2030.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at y nodau hyn. Mae tua 4,000 o bobl wedi cael eu trin yn llwyddiannus am hepatitis C, ond mae gwaith modelu diweddar yn amcangyfrif bod tua 8,000 o bobl yng Nghymru o hyd sy'n byw â hepatitis C.

Mae sgrinio am hepatitis B bellach yn rhan o'n rhaglen sgrinio cyn geni, ac mae'r rhaglen imiwneiddio rheolaidd i blant yn cynnwys brechiad hepatitis B, sy'n golygu bod achosion o haint hepatitis B acíwt ymhlith plant yn brin yng Nghymru erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'n parhau'n broblem ymhlith oedolion heb eu brechu.

Cafodd y pandemig effaith ddifrifol ar wasanaethau hepatitis B a C. Rwy'n falch bod y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn amlinellu sut y bydd y GIG yn mynd ati i adfer gwasanaethau i'w lefelau cyn y pandemig yn ogystal ag ailgydio yn yr ymdrechion i gael gwared ar hepatitis B a C fel bygythiad i iechyd y cyhoedd erbyn 2030. Mae 13 o gamau allweddol i fyrddau iechyd, Byrddau Cynllunio Ardal ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen yn cael y cymorth sydd ei angen er mwyn cyrraedd y targedau hyn i gael gwared ar y feirws.

Mae manteision cael gwared ar hepatitis B a C yn eang, i unigolion ac i'r gymdeithas ehangach. Drwy nodi a thrin pobl sydd â hepatitis B a C, gallwn sicrhau na fydd clefyd yr afu cysylltiedig â hepatitis yn datblygu, na'r cymhlethdodau sy'n deillio ohono, sy'n cael effaith sylweddol a niweidiol ar iechyd meddwl a chorfforol pobl. Yn ogystal, mae goblygiadau sylweddol o ran costau ac adnoddau i'r GIG o drin clefyd yr afu cysylltiedig â hepatitis.

Mae swyddogion wedi sefydlu Grŵp Trosolwg Rhaglen Dileu Hepatitis B a C sy'n cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid er mwyn rhoi pwyslais strategol unwaith yn rhagor ar gael gwared ar y feirws. Bydd y grŵp hwn yn adrodd i'r Prif Swyddog Meddygol a Gweinidogion yn rheolaidd.

Mae’r camau wedi cael eu datblygu gan y grŵp hwn, gan ganolbwyntio ar nodi’r bobl hynny y mae angen iddynt gael eu profi a'u trin, symleiddio prosesau darparu gwasanaethau fel bod modd i bobl gael eu profi a'u trin yn hawdd er mwyn diwallu anghenion unigolion, a chefnogi pobl drwy gydol y broses profi a thrin.

Rwy'n ddiolchgar am y gwaith caled a wnaed yn y maes hwn hyd yma, ac yn edrych ymlaen at gefnogaeth barhaus wrth inni fynd ati i gael gwared ar hepatitis B a C fel bygythiad i iechyd y cyhoedd.